Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
E-bost - Llywydd@senedd.cymru

24 Hydref 2022

Annwyl Elin

Fel y gwyddoch, rwyf wedi gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) yn ddiweddar ac LCM atodol mewn perthynas â Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) Llywodraeth y DU (y Bil).

Mae'r Bil yn parhau â'i hynt drwy Dŷ'r Arglwyddi, ac ar 12 Hydref cafodd fy swyddogion wybod bod y llywodraeth wedi cyflwyno gwelliannau pellach i'r Bil (11 Hydref), a ystyriwyd wedyn yn y Cyfnod Adrodd ar 18 Hydref. Derbyniwyd holl welliannau'r llywodraeth a gwelliant anllywodraethol ychwanegol, ac mae fy swyddogion wedi bod yn dadansoddi eu heffaith.

Fel yr amlinellir yn y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol yr wyf wedi'u gosod hyd yn hyn mewn perthynas â'r Bil hwn, er bod y Bil hwn yn cynnig newidiadau i'r drefn rheoleiddio landlordiaid tai cymdeithasol yn Lloegr, mae'r mwyafrif o'r darpariaethau'n ymestyn ac yn berthnasol i Gymru ac yn ymwneud â thai sy'n fater datganoledig. Yn hynny o beth, mae'r darpariaethau hynny yn gwneud darpariaeth berthnasol at ddibenion Rheol Sefydlog 29 y mae angen caniatâd y Senedd ar ei chyfer. Er nad yw'r dadansoddiad wedi'i gwblhau eto, rwy'n disgwyl y bydd angen caniatâd hefyd ar y gwelliannau i gyd, neu rai ohonynt, a dderbyniwyd yn y Cyfnod Adrodd, ac yn unol â hynny bydd LCM atodol pellach yn cael ei osod.

Oherwydd y cawsom wybod yn hwyr am y gwelliannau a gyflwynwyd, ni fydd modd ei osod o fewn dyddiad cau arferol Rheol Sefydlog 29 o bythefnos, fodd bynnag, bydd yn cael ei osod cyn gynted â phosibl.

Bydd copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Lesley Griffiths AS, a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Huw Irranca-Davies AS.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change